



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2019

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5
1020U50-1**

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2019

CYMRAEG AIL IAITH - UNED 5

ADRAN A

Y Gymraeg yn y Gymdeithas

Cwestiwn 1 (i)

Wrth ateb Cwestiwn 1 (i) disgwylir i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar rai o'r pwyntiau canlynol.

- Gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Er enghraifft, mae Strategaeth y Llywodraeth *Cymraeg 2050* yn nodi'r angen i gael:
 - mwy o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg;
 - mwy o addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion i blant a phobl ifanc;
 - mwy o gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg;
 - mwy o athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg;
 - mwy o addysg cyfrwng Cymraeg mewn colegau a phrifysgolion.
- Enghreifftiau o addysg Gymraeg yn ardaloedd yr ymgeiswyr e.e. addysg feithrin; addysg ail iaith mewn ysgolion; addysg cyfrwng Cymraeg; Cymraeg i Oedolion. Disgwylir i ymgeiswyr ymhelaethu ar ambell un o'r rhain, gan allu cyfeirio, o bosib, at ymweliad ag ysgol Gymraeg/â dosbarth Cymraeg i Oedolion. Gallai gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal hefyd fod yn berthnasol (e.e. gweithdai gan y Fenter Iaith leol/Yr Urdd).
- Profiad yr ymgeiswyr e.e. eu rhesymau dros ddewis astudio'r Gymraeg i Safon Uwch; pwysigrwydd dysgu'r iaith iddyn nhw'n bersonol; eu cynlluniau i barhau i astudio a/neu ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol.

Cwestiwn 1 (ii)

Wrth ateb Cwestiwn 1 (ii) disgwylir i'r ymgeiswyr gyfeirio at unigolion a digwyddiadau fel y rhai canlynol:

- Pobl sydd wedi protestio dros yr iaith Gymraeg yn y gorffennol ac effaith eu geiriau a'u gweithredoedd e.e.
 - Saunders Lewis, Lewis Valentine a D.J.Williams yn llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth yn 1936;
 - Protestiadau Eileen a Trefor Beasley yn yr 1950au a phwysigrwydd eu gweithredoedd o ran annog eraill i sefyll dros yr iaith;
 - Araith Tynged yr Iaith gan Saunders Lewis yn 1962 a hynny'n arwain at sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg;
 - Protest Gwynfor Evans dros gael sianel deledu Gymraeg ddechrau'r 1980au, gan lwyddo i newid meddwl San Steffan am sefydlu S4C;
 - Protestio yn erbyn boddi Cwm Celyn yn yr 1960au.

- Protestio heddiw e.e.
 - Rhai o ymgyrchoedd presennol Cymdeithas yr Iaith a'u canlyniadau;
 - Unigolion sydd wedi protestio yn sgil sylwadau dilornus am yr iaith / diffyg hawliau i'r iaith.
- Barn bersonol yr ymgeiswyr am bwysigrwydd sefyll dros yr iaith a mynnu hawliau i'r Gymraeg.

Ystod marciau	AA3
16-20	• arddangos gwybodaeth drylwyr, eang iawn a pherthnasol • cyfeirio at amrywiaeth eang o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith, a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod eang o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • mynegi barn yn hyderus ac yn rymus
13-15	• arddangos gwybodaeth led fanwl, helaeth a pherthnasol • cyfeirio at amrywiaeth dda o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith, a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod dda o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • mynegi barn yn gadarn ac yn sicr
10-12	• arddangos gwybodaeth helaeth a pherthnasol • cyfeirio at amrywiaeth o ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith, a gafael dda ar ramadeg a chystrawen • defnyddio ystod o eirfa a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn ofalus • mynegi barn yn effeithiol, gan gyflwyno rhesymau'n gyson
7-9	• arddangos gwybodaeth berthnasol • cyfeirio at rai ffynonellau ac adnoddau priodol • arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen • defnyddio geiriau a thermau priodol • eu mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir • cynllunio'u gwaith yn eithaf gofalus • mynegi barn yn briodol, gan gyflwyno rhai rhesymau
4-6	• arddangos gwybodaeth fras • cyfeirio at ambell ffynhonnell briodol • gwneud ychydig gasgliadau syml gan gyfeirio at ambell ddarn o dystiolaeth • arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau arwynebol • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen • eu mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • arddangos ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith • mynegi barn yn uniongyrchol, gan gynnig ambell reswm
0-3	• bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

ADRAN B

Trawsieithu

Cwestiwn (a)

Wrth drafod manteision ac anfanteision disgyblion yn gweithio'n rhan-amser, disgwylir i'r ymgeiswyr gyfeirio at nifer o'r pwyntiau isod:

Manteision:

- Mae gweithio'n rhan-amser yn gallu dysgu sgiliau gwerthfawr i bobl ifanc fel ysgwyddo cyfrifoldeb, gweithio gydag eraill, cyfathrebu a rheoli amser.
- Gall gweithio'n rhan-amser helpu i feithrin hyder.
- Gall gwaith rhan-amser helpu pobl ifanc i gael swydd yn y dyfodol. Mae cyflogwyr yn aml yn ffafrio ymgeiswyr sy'n gallu dangos iddynt weithio'n rhan-amser/gael profiad gwaith.
- Ennill arian e.e. o gymorth ar gyfer y coleg/y brifysgol.

Anfanteision:

- Effaith negyddol ar astudiaethau academiaidd.
- Ymchwil yn dangos bod disgyblion sy'n gweithio'n rhan-amser yn fwy tebygol o gymdeithasu gyda'r criw anghywir a gwario mwy o arian ar alcohol, sigarêts a chyffuriau.
- Mae mwy o bwysau ar bobl ifanc y dyddiau hyn o gymharu â phobl ifanc yn y gorffennol, felly mae'n anodd astudio a gweithio'n rhan-amser.
- Gall swyddi rhan-amser fynd â gormod o amser disgyblion ac felly gall gwaith gwirfoddol fod yn ffordd well o feithrin sgiliau ar gyfer y gweithle.

Cwestiwn (b)

Wrth ymateb i'r erthygl, disgwylir i'r ymgeiswyr allu ymateb i'r ffeithiau yn y darn gan nodi eu barn a chyfeirio at eu profiadau eu hunain.

Ystod marciau	AA3
32-40	• mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • mynegi barn yn hyderus ac yn rymus • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
26-31	• mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol • mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen
19-25	• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • cynllunio gwaith yn ofalus • rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen
13-18	• mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir • cyflwyno gwaith yn eithaf gofalus • arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa • mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol • arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen
7-12	• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen
0-6	• bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.